Polisi Ymddygiad
Y Cyfnod Sylfaen
Foundation Phase
Behaviour Policy



Ysgol Bro Alun

Polisi Ymddygiad y Cyfnod Sylfaen

Rheolau Aur

1. **Rydym yn dyner** - nid ydym yn brifo pobl eraill

2. Rydym yn garedig ac yn helpu - Nid ydym yn brifo teimladau unrhyw un

3. Rydym yn gwrando - Nid ydym yn tarfu ar bobl eraill

4. Rydym yn onest - Nid ydym yn cuddio'r gwirionedd

5. Rydym yn gweithio'n galed - Nid ydym yn gwastraffu ein hamser ni na phobl eraill

6. Rydym yn parchu ac yn edrych ar ôl eiddo - Nid ydym yn gwastraffu nag yn difrodi pethau

Amser Cylch

Rydym yn cynnal sesiynau amser cylch bob prynhawn dydd Gwener er mwyn cefnogi ethos a rheolau'r dosbarth. Yn y sesiwn yma rydym yn hyrwyddo a modelu ymddygiad da er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu ddiogel a phositif.

Gwobrwyo

Fel ysgol, rydym bob amser yn chwilio am yr agweddau positif ac mae gwobrwyo a rhoi clod i'r plant yn holl bwysig. Rydym yn rhoi clod a gwobrwyo'r plant sydd yn ymddwyn yn dda mewn nifer o wahanol ffyrdd:

* Rhoi clod ar lafar i'r plant yn barhaus
* **Amser Enfys** - yn wythnosol byddem yn cadw cofnod o'r plant sydd wedi ymddwyn yn arbennig ac wedi cael symud eu llun/enw ar yr enfys. Ar ddiwedd bob hanner tymor, byddem yn cyfri sawl gwaith mae pob plentyn wedi bod ar yr enfys a bydd 5 plentyn o bob dosbarth sydd wedi cael y nifer mwyaf yn cael y fraint o fynd i fan arbennig e.e. i'r parc.
* **Siart Clod** - caiff y plant sticer seren ar eu siart clod, ac ar ôl iddynt gasglu nifer o sêr (mae'r nifer mae'n rhaid iddynt ei gael yn amrywio bob dosbarth) byddent yn cael eu gwborwyo gyda rhywbeth o'r bocs trysor.
* **Amser Aur** - ar brynhawn dydd Gwener lle mae'r plant yn rhydd i ddewis beth maent eisiau wneud o fewn y dosbarth.
* **Sêr yr Wythnos** - bydd rhai o bob dosbarth yn cael eu dewis yn wythnosol o ganlyniad i waith da, ymddygiad da neu unrhyw gynnydd. Bydd lluniau o'r plant yn cael eu arddangos ar wal seren yr wythnos a bydd tystysgrif yn cael ei yrru adref gyda'r plentyn i ddangos i'r rhieni..
* **Clwb Cyw / Sêr Rapsgaliwn** - Mae'r plant yn cael eu gwobrwyo'n gyson am ymdrechu i siarad Cymraeg a chant roi llun Cyw (Meithrin a Derbyn) neu seren Rapsgaliwn (Blwyddyn 1 a 2) ar eu siart. Wedi iddynt lenwi eu siart (mae'r nifer mae gofyn iddynt gasglu yn amrywio yn ôl dosbarth) cant ddod i'r ysgol y diwrnod canlynol yn eu dillad eu hunain.
* Mae gwaith ac ymddygiad da yn cael ei rannu ar draws y dosbarth a gyda'r Pennaeth.

Foundation Phase Behaviour Policy

Golden Rules

1. **We are tender** - we don't hurt other people

2. We are kind and helpful - We don't hurt anybody's feelings

3. We listen—We don't interrupt anyone else

4. We are honest - We don't hide the truth

5. We work hard - We don't waste our or anyone else's time

6. We respect and look after possesions - We don't waste or damage things

Circle Time

We hold circle time sessions every Friday afternoon to emphasise the class ethios and rules. During this session, we promote and model good behaviour to ensure a safe and positive learning enviroment.

Rewardng good behaviour

As a school, we always look for positive aspects and rewarding and praising children is very important. We praise and reward children who behave in various ways:

* Praise the children orally regularly
* **Rainbow time** - Every week we keep a record of children who have shown excellent behaviour and have moved their picture/name on the rainbow. At the end of each half term, we will count how many times each child has been on the rainbow and 5 child from each class gets the privilege of going to a particular place e.g The Park.
* **Praise chart**—the children are given a sticker on their praise chart. After collecting 20 stickers they will be rewarded with something out of the treasure box.
* Good work and good behaviour is shared with the class and with the Head Teacher.
* **Golden Time**—On Friday afternoons, the children are free to choose whatever they want to do within the class.
* **Star of the Week**—one child will be chosen every week due to good work, good behaviour or making an improvement. The child's photo will be displayed on the Star of the Week wall and a certificate will be sent home to show the parents
* **Clwb Cyw / Sêr Rapsgaliwn -** The children are being rewarded for speaking Welsh and they will get a Cyw (Nursery & Reception) or a Rapsgaliwn Star (Year 1&2) on their chart. When they have filled their chart (The number they require to collect varies by class) they can then come to school the next day wearing their own clothes.
* Good work and behaviour will be shared accross the class and with the Head.

Dull disgyblaeth a rheoli ymddygiad

Yn y dosbarthiadau, mae yna luniau o enfys, haul, cwmwl llwyd a chwmwl du. Bydd llun neu enw pob plentyn yn dechrau'r diwrnod ar yr haul. Os yw'r plant yn dangos ymddygiad arbennig yn ystod y diwrnod, mi fyddent yn cael camoliaeth bositif a symud eu llun/enw ar yr enfys gan dderbyn sticer arbennig. Mae hyn eto yn hyrwyddo ymddygiad da o fewn y dosbarth.

Dyma'r camau rydym yn ddilyn i reoli ymddygiad:

1. Rhybudd llafar - egluro'n glir i'r plentyn fod ei ymddygiad yn annerbyniol a thrafodir hyn gyda hwy.
2. Os ydy'r plentyn yn torri rheolau eto ar ôl cael rhybudd bydd yn symud ei lun/enw ar y cwmwl llwyd. Os ydy'r plentyn yn adlewyrchu ymddygiad da ar ôl bod ar y cwmwl am gyfnod, caiff yr athro/athrawes benderfynu os yw'r plentyn yn haeddu symud yn ôl ar yr haul.
3. Os yw'r ymddygiad yn parhau, a fod y plentyn yn torri rheolau eto tra ar y cwmwl llwyd bydd rhaid iddynt symud eu llun/enw ar y cwmwl du a cholli cyfnod o amser chwarae. Os yw plentyn yn gwneud rhywbeth difrifol e.e anafu plentyn yn fwriadol, yna gallant fod yn mynd syth ar y cwmwl du. Os yw eu llun ar y cwmwl du, byddant yn aros arno tan ddiwedd y dydd, ond yn dechrau nôl ar yr haul eto y diwrnod canlynol gan ei fod yn ddiwrnod newydd. Bydd pob Athro/Athrawes dosbarth yn trafod ymddygiad y plentyn gyda'r rhiant ddiwedd y dydd ac yn cofnodi beth sydd wedi digwydd.

Os yw plentyn yn dangos ymddygiad ardderchog yn ystod y dydd byddant yn cael eu canmol ac yn symud eu llun/enw ar yr enfys ac yn derbyn sticer arbennig. Mae hyn eto yn hybu ymddygiad cadarnhaol o fewn y dosbarth.

Amser Aur

Os yw plentyn wedi bod ar y cwmwl du yn ystod yr wythnos byddant yn colli 5 munud yn y dosbarth derbyn a 10 munud ym mlwyddyn 1 a 2 o amser aur ac yn mynd i drafod eu hymddygiad gyda'r Pennaeth/Dirprwy. Os yw'r plentyn yn colli amser aur x 3 gwaith bydd yr athro dosbarth yn gofyn i'r rhieni ddod i'r ysgol i drafod ymddygiad y plentyn a sut y gall wella. Os yw'r plentyn yn colli amser aur x 3 am yr **AIL DRO** yna bydd llythyr yn mynd adre yn gofyn i'r rheini ddod i'r ysgol i drafod hefo'r Pennaeth / Dirprwy y camau nesaf i helpu'r plentyn.



Ways of controlling behaviour and discipline

In the classes, everyone has a picture of a rainbow, sun, grey cloud and dark cloud. Every chold starts the day on the sun. Here are the steps we take to control behaviour:

1. Verbal warning—explain clearly to the child that the behaviour is unacceptable and it wil be discussed with them.
2. If the child breaks the rules again after a warning his picture will be moved to a grey cloud. If he shows good behaviour having been on the cloud, the teacher decides if the child can move back on to the sun.
3. If the behaviour goes on, and that the child continues to break rules while on the grey cloud he/she moves to the dark cloud and misses part of playtime. If they are on the dark cloud, they will stay there until the end of the day then start the following day back on the sun as it is a new day. If a child does something serious i.e. hurt another child delibrately, he/she can be moved straight to the dark cloud. Every class teacher discusses the behaviour of the child with the parent at the end of the day and will keep a record of what has happened.

If a child demonstrate excellent behaviour during the day they will be praised and move their picture to the rainbow and will receive a special sticker. This again promotes positive behaviour within the class.

Golden Time

If a child has been on the black cloud during the week they will lose 5 minutes (Reception Class) and 10 minutes (Year 1 &2) of their golden time and will discuss their behaviour with the Head/Deputy. If the child has lost golden time 3 times the class teacher will ask the parents to come to school to discuss the child's behaviour and how it can improve. If the child loses golden time x 3 for the second time then a letter will go home to ask the parent to come to school and discuss with the Head/Deputy the next steps to help the child.